

Herio penderfyniadau am ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru a Lloegr

Beth a ddysgom



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**. Mae'n fersiwn hawdd ei darllen o'n **hymchwiliad i herio penderfyniadau am ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru a Lloegr**.

Chwefror 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Mae hon yn ddogfen hawdd ei darllen. Ond efallai y bydd angen cefnogaeth arnoch chi o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Gall geiriau mewn **ysgrifen glas drom** fod yn anodd eu deall. Maen nhw wedi cael eu hesbonio mewn blwch o dan y gair.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n:

Gwefan: www.equalityhumanrights.com

neu

E-bostiwrch: SCI@equalityhumanrights.com

**Trwydded Photosymbol
rhif 403527247**



Tudalen

Cyflwyniad.....	4
Beth a wnaethom.....	7
Beth a ddysgom	9
Gwybodaeth.....	10
Prosesau cwyno	11
Beth sydd angen newid	14
Dysgu rhagor	16

Cyflwyniad



Ni yw'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**.



Ein gwaith ni yw gwneud yn siŵr y dilynir syniadau a chyfreithiau **cydraddoldeb** a **hawliau dynol** yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.



Ym mis Gorffennaf 2021, dechreuon ni **ymchwiliad**.

Mae **ymchwiliad** yn archwiliad ffurfiol. Gwnaethom gasglu gwybodaeth i ddysgu beth oedd yn digwydd.



Edrychom ar sut y gall:

- pobl hŷn
- oedolion anabl
- a gofalwyr di-dâl

herio penderfyniadau eu cynghorau lleol am ofal cymdeithasol a chefnogaeth.



Edrychom ar gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr.



Mae dyletswydd ar eich cyngor lleol i hyrwyddo:

- cydraddoldeb
- hawliau dynol
- eich lles



Dylai eich cyngor lleol ystyried eich barn a'ch dymuniadau wrth wneud penderfyniadau.



Mae gennych hawl i herio'r penderfyniadau y mae eich cyngor lleol yn eu gwneud am ofal cymdeithasol.



Mae gofal cymdeithasol o dan lawer o bwysau. Mae llai o arian a mwy o bobl sydd angen cefnogaeth.



Ac mae COVID-19 wedi gwneud problemau'n waeth.



Mae rhai pobl wedi dweud bod cynghorau lleol yn cynnig llai o ofal a chefnogaeth erbyn hyn. Ac nid ydynt bob amser yn diwallu anghenion pobl.

Beth a wnaethom



Fe gasglom wybodaeth gan:

- pobl sydd eisoes wedi herio penderfyniad am ofal cymdeithasol
- a chan bobl sydd am herio penderfyniad.



Cynhaliom arolwg gyda 153 o awdurdodau lleol.



Clywsom gan 332 o oedolion sy'n defnyddio gofal cymdeithasol. A'u gofalwyr a phobl sy'n eu cefnogi.



Fe wnaethom gyfweld â 41 o bobl a gofalwyr sy'n defnyddio gofal cymdeithasol neu sydd am ddefnyddio gofal cymdeithasol.



Clywsom hefyd gan staff gofal cymdeithasol. Megis **eiriolwyr**, sefydliadau pobl hŷn ac anabl, ac arbenigwyr cyfreithiol.



Mae **eiriolwr** yn berson sydd â hyfforddiant arbennig a all siarad ar eich rhan. A gwneud yn siŵr bod rhywun yn gwrando ar eich barn a'ch dymuniadau.



Edrychom ar bapurau ymchwil a pholisi.



Ac fe wnaethom wirio adroddiadau cwynion gan rai awdurdodau lleol i weld beth ddysgon nhw.

Beth a ddysgom



Dysgom fod rhai cwynion cyffredin iawn – mae llawer o bobl wedi cael yr un broblem.



Roeddent am herio penderfyniad am eu gofal neu gefnogaeth.

Roedd llawer o bobl yn herio penderfyniadau oherwydd:



- Maen nhw'n teimlo na wrandawyd ar eu barn a'u dymuniadau.



- Ni chaiff rhai cyflyrau iechyd ac anableddau nad ydynt yn weladwy, neu sy'n gallu bod yn waeth weithiau ac yn well weithiau, eu hystyried gymaint.



- Dechreuodd yr awdurdod lleol ddarparu llai o ofal neu gefnogaeth. Hyd yn oed pan nad oedd anghenion person wedi newid.



- Roedd hi'n anodd iddyn nhw dalu am y gofal a'r gefnogaeth dywedodd y cyngor eu bod yn gorfod talu amdanynt.

Gwybodaeth



Nid yw pobl yn cael gwybodaeth am sut i herio penderfyniadau mewn ffordd glir a hawdd ei deall.



Mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth sy'n hawdd ei deall.

Prosesau cwyno



Mae'r ffordd rydych chi'n cwyno yn wahanol ar draws gwahanol gynghorau lleol. Yn enwedig yn Lloegr.



Gall hyn fod yn ddryslyd. Ac mae'n golygu bod pobl yn cael eu trin yn wahanol yn dibynnu ar ble maent yn byw.



Dywedodd pobl wrthym fod gwneud cwyn yn anodd ac yn straen.



Mae'n gallu bod yn anodd i bobl ddilyn proses gwyno pan nad ydynt yn deall y gyfraith.



A phan fydd eu teimladau wedi'u heffeithio. Er enghraifft, efallai byddan nhw'n teimlo dan straen, yn grac neu'n gofidio am eu cwyn, sy'n gwneud pethau'n anoddach.



Mae'n cymryd amser hir i wneud cwyn. Clywsom am rai cwynion oedd wedi cymryd 2 flynedd i'w datrys.



Nid yw pobl yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am sut i herio penderfyniad. Ac mae ofn arnynt, os byddant yn cwyno, y gallai fod effaith ar eu gofal neu y gallent ei golli.



Mae rhai pobl yn poeni nad oes gan eu cyngor lleol ffordd annibynnol o ddelio â chwynion.



Mae hyn yn golygu cael rhywun nad yw wedi'i reoli neu dan gyfarwyddyd y cyngor i ddelio â chwynion. Felly, mae pobl yn ei chael hi'n anoddach ymddiried yn y broses gwynion.



Gall cynghorau lleol wella pethau pe byddent yn casglu gwybodaeth am:

- sawl cwyn maen nhw'n eu derbyn
- y rhesymau dros y cwynion
- ac unrhyw dueddiadau neu resymau cyffredin dros gwynion.



Ond nid yw cynghorau lleol yn casglu a defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon aml. Felly ni allant ddeall problemau cyffredin a sut i wella pethau.



Dyw rhai prosesau ar gyfer sut y gall pobl wneud cwynion a herio penderfyniadau ddim yn ddigon da.



Golyga hyn nad yw rhai pobl yn cael help. Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu ac fel nad oes ganddynt ddewis na rheolaeth.

Beth sydd angen newid



Mae cynghorau lleol dan bwysau, ond rhaid iddyn nhw barhau i ddiogelu hawliau pobl.

Mae gennym rai awgrymiadau ar sut y gall pethau wella yng Nghymru a Lloegr:



- Rhaid i gynghorau lleol wella eu gwybodaeth. Rhaid ei bod yn hawdd dod o hyd iddi, ei defnyddio a'i deall i bawb.



- Rhaid i gynghorau lleol nodi'n glir sut y gall pobl gwyno. A rhaid iddynt gefnogi pobl i wneud cwyn.



- Dylai cynghorau lleol gasglu gwybodaeth er mwyn deall problemau cyffredin. A'i defnyddio i wella eu gwasanaethau.

Local Government &
Social Care
OMBUDSMAN



- Rhaid i Lywodraeth y DU roi'r pwerau i'r **Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol** oruchwylio cwynion gofal cymdeithasol i oedolion. Ac i osod safonau ar gyfer prosesau cwynion yng Nghymru a Lloegr



- Dylai Llywodraeth y DU roi'r pŵer i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol ddechrau ymchwiliadau ar eu pen eu hunain pan fo problemau.



- Dylai Llywodraeth Cymru wella eu canllawiau i gynghorau lleol ar sut i gyflawni eu dyletswyddau o dan y gyfraith.



- Dylai sefydliadau eraill sy'n gwirio gofal cymdeithasol i oedolion ddefnyddio eu pwerau. Er enghraifft, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Dysgu rhagor



Gallwch ddarllen ein hadroddiad llawn a'n holl awgrymiadau ar [ein gwefan](#).



Nid yw'r adroddiad hwn mewn fformat hawdd ei ddarllen.